GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU
Y FANYLEB PERSON

ADRAN	Adnoddau Dynol
TEITL Y SWYDD	Swyddog Datrys
RHIF Y SWYDD	NU073
GRADD	11
LLEOLIAD	Pencadlys y Gwasanaeth Tân

Defnyddir meini prawf hanfodol **a amlygir ac a nodir â seren*** at ddibenion llunio rhestr fer. A wnewch chi sicrhau yr ewch i'r afael â'r gofynion hyn yn eich Ffurflen Gais (o dan yr Adran *'Profiad a Gwybodaeth Arall'*). Dylech ddarparu tystiolaeth eglur sy'n arddangos eich bod yn cwrdd â phob maes ar sail eich sgiliau, gwybodaeth, profiad a gallu sy'n berthnasol i'r swydd.

Lle amlygir cymhwyster fel 'Maen Prawf Hanfodol', bydd angen i chi ddarparu copi o'ch Tystysgrifau ynghyd â'ch Ffurflen Gais.

Ffactor	**Tystiolaeth**	**Hanfodol/ Dymunol**	**Dull Canfod**
Cymwysterau	Cymhwyster Lefel Uwch Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu neu gymhwyster cyfartalog	Dymunol	Cais/ Tystysgrif
	Aelodaeth Broffesiynol o fewn y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu	Dymunol	Cais
Gwybodaeth/ Profiad	**Profiad o ymchwilio i faterion sy'n ymwneud â disgyblaeth a chwynion/neu gwynion***	**Hanfodol***	**Cais***/ Proses Ddethol
	Profiad o ysgrifennu adroddiadau ffurfiol*	**Hanfodol***	**Cais***/ Proses Ddethol
	Gwybodaeth a dealltwriaeth o ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar goladu a storio gwybodaeth	Hanfodol	Proses Ddethol
	Gwybodaeth a dealltwriaeth o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â chyflogaeth	Hanfodol	Proses Ddethol
	Y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg	Dymunol	Cais
Arddull Bersonol	**Y gallu i gynnal ymagwedd deg a moesol ym mhob sefyllfa (e.e. trin pobl â pharch ac urddas wrth gynnal ymchwiliad diduedd)**	**Hanfodol**	**Cais***/ Proses Ddethol

Dyddiad y Crëwyd: Ionawr 2019
Awdur: Gillian Goss - Rheolwr AD (Cysylltiadau Gweithwyr)

	Y gallu i weithio mewn cydymffurfedd llwyr â pholisïau sefydliadol a chyfarwyddyd deddfwriaethol, gan barchu unrhyw wybodaeth sensitif a gyflwynir*	**Hanfodol***	**Cais*/** Proses Ddethol
	Y gallu i gyflwyno a hyrwyddo agwedd hyderus, trefnus a chanolbwyntiedig	Hanfodol	Proses Ddethol
Rhyngbersonol	Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol ar lafar ac yn ysgrifenedig ill dau i ystod eang o gynulleidfaoedd	Hanfodol	Proses Ddethol
	Ymroddiad i ddatblygu eich hun ac eraill i wella effeithiolrwydd sefydliadol (yn enwedig mewn perthynas â hyfforddi a chefnogi rheolwyr)	Hanfodol	Proses Ddethol
Tasg	Y gallu i ddeall a dehongli gwybodaeth gymhleth	Hanfodol	Proses Ddethol
	Y gallu i gynllunio a blaenoriaethu gwaith yn unol â gofynion cystadleuol	Hanfodol	Proses Ddethol

Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus ymgymryd â Phrawf Cyffuriau ac Alcohol cyn y gwneir unrhyw benodiad.

Mae'r rôl hon yn cynnwys teithio cyson rhwng lleoliadau ar draws ardal De Cymru. Rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus allu teithio'n annibynnol.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg a Saesneg ill dau a chroesawn gyfathrebiadau yn y naill iaith â'r llall.

hyderus o ran anabledd
YMRODDEDIG

Dyddiad y Crëwyd: Ionawr 2019
Awdur: Gillian Goss - Rheolwr AD (Cysylltiadau Gweithwyr)